

## Briffiad cefndir y cyfryngau - ymchwiliadau cyllid pleidiau ac etholiadau Rhagfyr 2016

---

Mae'r briffiad yma'n grynodedb o'r broses y mae'r Comisiwn yn ei dilyn i gynnal asesiadau ac ymchwiliadau i achosion cyllid pleidiau ac etholiadau, lle mae rheswm i gredu bod trosedd yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) wedi ei chyflawni. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiwn, sy'n dangos y broses yn llawn, i'w gael [yma](#).

### 1. Rôl y Comisiwn fel rheoleiddiwr

Mae gennym ni bwerau gorfodi i ymchwilio i achosion honedig o dorri rheolau yn ogystal ag achosion o dorri'r rheolau ry'n ni'n eu nodi'n rhagweithiol, a grymoedd i roi amryw gosbau. Os credwn fod yr achos o dorri'r rheolau am gael effaith sylweddol ar hyder yn nhryloywder a hygreddd cyllid pleidiau ac etholiadau, gallwn basio'r mater i'r heddlu neu'r awdurdod erlyn.

Amcan ein gweithgarwch gorfodi yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau PPERA, a hyder y cyhoedd yn hygreddd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau Ry'n ni'n cyhoeddi crynodebau o ganlyniadau ein holl waith achos. Nid yw'r Comisiwn yn ymchwilio honiadau o ran treuliau ymgeiswyr. Mae'r rheolau i'w cael yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac mae'r heddlu'n gyfrifol amdanynt.

### 2. Aseadau ac ymchwiliadau

#### **Ar ba sail fyddwch chi'n agor ymchwiliad?**

Ry'n ni'n edrych ar bob achos posibl o dorri rheolau i benderfynu p'un a bod angen eu **hasesu**. Ni fyddwn yn asesu materion posibl os nad ydynt o fewn ein cwrpas rheoleiddiol. Os yw'n ymholiadau cychwynnol yn nodi bod trosedd neu gamwedd wedi digwydd, byddwn yn cychwyn y broses asesu.

#### **Beth yw'r gwahaniaeth rhwng asesiad ac ymchwiliad?**

Mae asesiadau yn ystyriaeth o'r materion a'r dystiolaeth i benderfynu p'un a i ymchwilio, neu os gellir delio gyda mater mewn modd arall, megis rhoi canllawiau.

Ni fydd pob asesiad yn arwain at agor ymchwiliad. Byddwn yn agor ymchwiliad, yn dilyn asesiad, lle ystyriwn ei bod hi ym mudd y cyhoedd, yn gymesur ac yn cyfiawnhau defnyddio cronfeydd cyhoeddus i wneud hynny.

### **Faint o amser mae ymchwiliad yn ei gymryd?**

Mae hyn yn amrywio o achos i achos ac mae'n dibynnu ar faint o dystiolaeth sydd i'w gasglu a'i asesu a chymhlethdod yr ymchwiliad. Ein blaenoriaeth gyntaf yw cynnal ymchwiliad teg a thrwyadl. Byddwn bob tro yn cyhoeddi canlyniad ein gwaith achos cyn gynted ag sy'n ymarferol.

### **3. Dod ag ymchwiliad i ben**

#### **Pa gamau fyddwch chi'n cymryd ar ddiwedd ymchwiliad?**

Os bydd ymchwiliad yn cael ei agor mae tri chanlyniad posibl:

- Ry'n ni'n penderfynu bod dim, neu dim digon o dystiolaeth o drosedd neu gamwedd i gymryd camau.
- Ry'n ni'n fodlon tu hwn i amheuaeth resymol bod trosedd neu gamwedd wedi'i chyflawni.
- Ry'n ni'n penderfynu nad yw hi bellach ym mudd y cyhoedd i ymchwilio.

Unwaith bod ymchwiliad wedi dod i ben a'n bod ni'n fodlon tu hwn i amheuaeth resymol bod trosedd neu gamwedd wedi'i chyflawni, byddwn yn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd. Os yw'n briodol, gallwn benderfynnu cyfeirio'r mater i'r heddlu neu'r awdurdodau erlyn perthnasol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn cynnwys penderfynu p'un a i roi cosb ai peidio.

### **4. Cosbi**

#### **Beth yw'r broses ar gyfer rhoi cosbau?**

Os fyddwn ni'n penderfynnu bod cosb yn briodol, byddwn yn ystyried y gosb, ac yn achos cosb ariannol, lefel y gosb yn seiliedig ar nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys y drosedd a sut digwyddodd; natur a hanes cydymffurfio'r person neu'r sefydliad; a'r camau a gymrwyd ar ôl y digwyddiad.

Os fyddwn yn penderfynnu rhoi cosb, byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

- Rhoi hysbysiad cychwynnol
- Caniatáu cyfnod o amser i roi sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig
- Ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau
- Un ai cau'r mater neu roi hysbysiad terfynol

Pan fyddwn ni'n rhoi **hysbysiad cychwynnol** mae gan destun yr ymchwiliad gyfle i wneud sylwadau yn erbyn ein canfyddiad o drosedd. Ar y pwynt yma, ni fyddwn ni'n gwneud sylwadau i'r cyfryngau.

Mae ymchwiliadau yn dod i ben unwaith i **hysbysiad terfynol** wedi ei roi neu ein bod wed **cau'r mater** (er enghraifft os fyddwn yn methu â dod o hyd i achos o dor-rheolau neu os nad yw ym mudd y cyhoedd i barhau â'r ymchwiliad). Byddwn wedyn yn cyhoeddi crynodebau o ganlyniadau'r achos ar ein gwefan. Mewn rhai achosion byddwn hefyd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg.

#### **Oes modd apelio penderfyniadau?**

Oes. Mae gan unigolyn neu sefydliad sy'n derbyn cosb 28 diwrnod i apelio'r penderfyniad. Caiff apêl o'r fath ei wneud i'r Llys Sirol. Lle bo'r gosb yn destun apêl byddwn yn darparu'r wybodaeth hon ar ein gwefan.

## Pa gosbau sydd ar gael i'r Comisiwn?

Mae'r cosbau sydd ar gael i'r Comisiwn ers 1 Rhagfyr 2010 yn cynnwys:

- **Cosb ariannol sefydlog;** Cosb o £200 (mae hyn yn cynyddu os na chaiff ei dalu o fewn 28 diwrnod)
- **Cosb ariannol amrywiol;** Cosb o rhwng £250 a £20,000 (mae'r gosb yn cynyddu os na chaiff ei dalu o fewn 28 diwrnod).
- **Hysbysiad cydymffurfio;** Hysbysiad yn gosod camau i'w cymryd gan y person neu'r sefydliad i sicrhau cydymffurfio yn y dyfodol
- **Hysbysiad adfer;** Hysbysiad yn gosod camau i'w cymryd gan y person i adfer y sefyllfa, cyn belled ag sy'n bosib, i beth y byddai wedi bod pe na baent wedi torri'r rheolau. Gallwn roi dirwy i'r person neu'r sefydliad os nad ydynt yn gwneud beth a ofynnir iddynt.
- **Hysbysiad stopio;** Hysbysiad sy'n rhwystro person neu sefydliad rhag parhau neu gychwyn gweithgarwch penodol hyd nes bod y camau yn yr hysbysiad wedi eu cymryd.
- **Ymgymryd â gorfodi;** Gall unigolyn neu sefydliad sydd wedi torri'r rheolau gynnig cymryd camau penodol i sicrhau adfer a/neu gydymffurfiaeth yn y dyfodol. Os cytunwn â'r cynnig bydd hyn fel arfer yn golygu nad oes angen cosb.
- **Fforffedu arian;** Nid yw fforffedu yn gosb yn dechnegol, ond mae'n gam sydd ar gael i'r Comisiwn mewn rhai sefyllfaoedd, yn ogystal â, neu yn hytrach na chosbau.

Mae mwy o fanylion ar y cosbau sydd ar gael i'r Comisiwn a phryd y gellir eu defnyddio yn ein polisi gorfodi [yma](#).

## 5. Datgelu gwybodaeth o ran ymchwiliadau

### Asesiadau

Ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar faterion sy'n cael eu hystyried neu sy'n cael eu hasesu - gallai datgelu gwybodaeth bryd hyn fod yn annheg i destun yr asesiad.

### Ymchwiliadau

Yn ystod ymchwiliad sy'n mynd rhagddo, ni fyddwn yn rhoi sylwadau wrth fynd ymlaen. Fe allwn gadarnhau, os gofynnir i ni, p'un a bod unigolyn neu sefydliad yn destun ymchwiliad a nodi'r drosedd neu'r camwedd a ystyrir. Os yw ym mudd y cyhoedd, gallwn roi datganiad i gadarnhau cychwyn ymchwiliadau a/neu newid i'w gwmpas.

Unwaith i ymchwiliad gael ei gwblhau, a bod unrhyw gosb wedi'i roi, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad ar ein gwefan. Os yw'r mater yn wahanol, â phroffil uchel neu os yw'r gosb dros £100 byddwn hefyd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn amlygu'r ymchwiliad. Gallwn hefyd gyhoeddi adroddiadau manylach ar rhai achosion o fewn y meini prawf hyn. Cyn cyhoeddi'r adroddiad ymchwiliad neu ddatganiad i'r cyfryngau, byddwn yn rhoi gwybod i destun yr ymchwiliad, a gallwn roi gwybod i bersonau eraill a enwir.

### Diwedd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â swyddfa cyfryngau'r Comisiwn Etholiadol drwy ffonio 029 2034 6810 neu e-bostiwch [press@electoralcommission.org.uk](mailto:press@electoralcommission.org.uk) Tu allan i oriau swyddfa ffoniwch 07789 920 414

